# Rhoi Plant yn Gyntaf

## Maniffesto ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru: Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig 2024



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

BARNARDO'S CYMRU
Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.

NSPCC
CYMRU | WALES

Save the Children
Achub y Plant

nyas cymru
gwasanaeth eiriolaeth ieuenctid cenedlaethol
national youth advocacy service

HOME START Cymru

Action for Children
Gweithredu dros Blant

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

*Ymwadiad: Mae gan y sefydliadau uchod gylchoedd gorchwyl a meysydd arbenigol penodol. O ganlyniad, cyflwynir galwadau'r maniffesto hwn fel rhan o glymblaid, ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn yr holl sefydliadau unigol a restrir uchod.*

**“Mae’r etholiad cyffredinol sydd ar droed a Llywodraeth newydd yn dod (i San Steffan) yn gyfle allweddol i ymdrin â’r materion brys mae babanod, plant a phobl ifanc yn eu hwynebu heddiw. Trwy gydlynu blaenoriaethau ar draws y Llywodraeth, ymrwymo i wrando ar leisiau plant, a’r ymyriadau polisi a’r buddsoddiad cywir, gall pob plentyn gael cyfle i ffynnu.”[1]**

Children at the Table: A Roadmap for putting children at the heart of the next Government (Nov 2023)

Fel clymblaid o elusennau plant sy’n gweithio yng Nghymru, rydyn ni’n galw ar yr holl bleidiau i roi blaenoriaeth i fabanod, plant a phobl ifanc yn ystod Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ac wedi hynny. Rydyn ni’n gofyn i bob plaid wleidyddol ymrwymo i bolisïau uchelgeisiol sy’n gwella bywydau pob plentyn a theulu yng Nghymru, yn arbennig y mwyaf difreintiedig a bregus; yn mynd i’r afael â newid hinsawdd; sy’n dileu tlodi plant ac sy’n amddiffyn hawliau dynol pob plentyn.

Rydyn ni’n cefnogi galwadau *‘i Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig wneud babanod, plant a phobl ifanc yn ganolog i lunio polisïau’r Llywodraeth, a chefnogi hynny â newid sylweddol o ran buddsoddiad er mwyn trawsffurfio plentyndod ar draws y Deyrnas Unedig.’*[1]

Mae hynny’n golygu:

- Ymrwymo i strategaeth a fframwaith deilliannau uchelgeisiol ar draws y Llywodraeth er mwyn sbarduno gwelliannau i fabanod, plant a phobl ifanc.
- Agwedd newydd at lunio penderfyniadau, lle mae anghenion, dymuniadau a deilliannau plant yn ganolog, a lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys bob cam o’r ffordd.
- Buddsoddi mwy o’n cyfoeth cenedlaethol mewn gwella bywydau babanod, plant a phobl ifanc, a gwario’n strategol ar ymyrraeth gynnar ac ataliaeth.

Gall Cymru ymfalchïo yn ei thraddodiad o arddangos ymrwymiad i hybu hawliau a llesiant pob plentyn, a gwella bywydau plant, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus. Rhaid i Lywodraeth nesaf San Steffan sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i bob penderfyniad ac yn cael blaenoriaeth lawn.

**Ein galwadau ar bleidiau gwleidyddol**

Er bod gan y Senedd a Llywodraeth Cymru bwerau dros lawer o’r meysydd polisi sy’n effeithio ar blant yng Nghymru, mae gan Lywodraeth nesaf y Deyrnas Unedig bŵer i wneud penderfyniadau pwysig mewn meysydd neilltuedig sy’n effeithio ar blant yng Nghymru[2].

Rydyn ni wedi nodi nifer o flaenoriaethau penodol a fydd yn cyflawni ar gyfer babanod, plant, pobl ifanc a’u teuluoedd yng Nghymru.

---

[1] Children at the Table: A Roadmap for putting children at the heart of the next Government (Tachwedd 2023)

[2] Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am ddeddfu ar faterion sydd heb eu datganoli, gan gynnwys cyfiawnder troseddol a chyfiawnder ieuenctid, mewnfudo a nawdd cymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys rhai agweddau ar drafnidiaeth, cyflogaeth a phethau eraill

# Dileu tlodi plant

**Rydyn ni'n galw ar y pleidiau gwleidyddol i wneud y canlynol:**

- Ymrwymo i wneud dileu tlodi plant yn flaenoriaeth ganolog, gan sicrhau bod Strategaeth Tlodi Plant yn ei lle ar draws y Deyrnas Unedig, gyda thargedau uchelgeisiol, dangosyddion mesuradwy a mecanweithiau monitro ac atebolrwydd clir. Rhaid i'r Strategaeth hon gymryd i ystyriaeth lawn a chefnogi cyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru, parchu'r pwerau a ddatganolwyd i Gymru, a chael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r gwledydd datganoledig.
- Diwygio system budd-daliadau'r Deyrnas Unedig i sicrhau ei bod yn darparu 'rhwyd ddiogelwch' angenrheidiol i bob plentyn a theulu fyw gydag urddas, ac yn dileu rhwystrau i gynnydd personol[3].
- Dileu'r terfyn dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau; gwyrdroi'r gostyngiadau yn y gwariant ar daliadau nawdd cymdeithasol a sicrhau bod budd-daliadau'n cael eu cynyddu'n unol â chwyddiant.
- Gweithio tuag at warant hanfodion ar gyfer pob teulu sydd â phlant.
- Sicrhau bod anghenion a hawliau plant yn ganolog i bob ateb sy'n mynd i'r afael ag argyfwng parhaus Costau Byw.

[3] Er enghraifft, y cyfyngiadau presennol ar oedolion ifanc, sy'n methu hawlio lwfans Gofalwr os ydyn nhw'n astudio am fwy na 21 awr yr wythnos

# Hawliau plant

**Rydyn ni'n galw ar y pleidiau gwleidyddol i wneud y canlynol:**

- Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, a chynnal Asesiadau Effaith Hawliau Plant ar bob penderfyniad polisi sy'n cael effaith ar blant yng Nghymru.
- Sicrhau bod yr holl fesurau amddiffyn presennol yn Neddf Hawliau Dynol 1998 yn cael eu cadw, a dylai unrhyw adolygiad o ddeddfwriaeth hawliau dynol gryfhau'r amddiffyniad presennol i blant, yn hytrach na'i leihau.
- Yn dilyn datblygiadau cadarnhaol yng Nghymru, estyn yr hawl i bleidleisio a sefyll ym mhob etholiad cyhoeddus, i gychwyn yn 16 oed.
- Sicrhau bod digon o gyfleoedd i farn plant a phobl ifanc gael ei chlywed ar bob penderfyniad polisi sydd heb ei ddatganoli, a bod strwythurau cadarn yn eu lle ac yn derbyn adnoddau digonol sy'n cefnogi llais ieuenctid yn y broses o wneud penderfyniadau yn y senedd[4].

# Amddiffyniad

**Rydyn ni'n galw ar y pleidiau gwleidyddol i wneud y canlynol:**

- Ymrwymo i roi blaenoriaeth i weithredu'n llawn Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023.
- Sicrhau bod plant sy'n ceisio lloches yn cael eu trin fel 'plant yn gyntaf', heb wahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn cael mynediad at wasanaethau cymorth a darpariaeth sydd ag adnoddau llawn.
- Sicrhau bod gan blant sy'n rhan o deuluoedd a phlant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain (UASC) lwybrau cyfreithlon, diogel i geisio am loches yn y Deyrnas Unedig.
- Datblygu (neu adnewyddu) deddfwriaeth a gefnogir gan strategaethau cynhwysfawr ar gynnal yr hawl i gael amgylchedd iach, sy'n amddiffyn babanod, plant a phobl ifanc rhag niwed amgylcheddol, ochr yn ochr â sicrhau bod plant yn chwarae rhan weithredol mewn atebion sy'n ymdrin â'r hinsawdd, fel y cymeradwyir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[4] Mae hyn yn dilyn y ffaith bod Cyngor Ieuenctid Prydain wedi dod i ben, a fu wrthi gyda sefydliadau partner ar y lefel ddatganoledig yn cydlynu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn rhan o'r broses seneddol trwy Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, gydag adnoddau canolog gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

# Buddsoddi

**Rydyn ni'n galw ar y pleidiau gwleidyddol i wneud y canlynol:**

- Adolygu'r trefniadau ariannol presennol i Gymru ar gyfer dosbarthu cyllid er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru yn well i dderbyn lefel ddigonol o adnoddau i gyflwyno rhaglenni ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc, yn unol â meysydd polisi datganoledig, a bod yn gwbl atebol i'r Senedd.
- Blaenoriaethu buddsoddiad mewn ymyriadau sy'n faterion neilltuedig i San Steffan, ac sy'n cyflwyno deilliannau cadarnhaol i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru, megis cynlluniau nawdd cymdeithasol, trefniadau trafnidiaeth trawsffiniol, ac atal troseddu.

# Cryfhau datganoli

**Rydyn ni'n galw ar y pleidiau gwleidyddol i wneud y canlynol:**

- Sicrhau bod strwythurau ymgysylltu rhynglywodraethol cadarn ar waith rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod anghenion babanod, plant a phobl ifanc yn flaenoriaethau gwleidyddol ac wrth fuddsoddi.
- Adolygu pwerau datganoledig Cymru mewn rhai meysydd polisi, gyda golwg ar sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru y pwerau angenrheidiol i gyflawni ar ran babanod, plant a phobl ifanc.